*Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.*

# Gweithdrefn QAA ar gyfer ymdrin â Chanmoliaeth, Sylwadau a Chwynion

## Cyflwyniad

1 Rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib, ac i weithio mewn ffordd agored ac atebol. Un o'r ffyrdd yr ydym yn parhau i wella ein gwasanaeth yw drwy wrando ar farn ein haelodau, ein rhanddeiliaid a defnyddwyr ein gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys ymateb yn gadarnhaol i gwynion a chywiro camgymeriadau. Os nad ydych chi'n fodlon â'r gwasanaeth a gawsoch gennym, rhowch wybod i ni.

2 Mae'r polisi hwn yn nodi canllawiau i sicrhau bod canmoliaeth, sylwadau a chwynion a dderbynnir gan QAA yn cael eu trin gyda chwrteisi, parch a thegwch.

3 Mae QAA yn diffinio cwynion fel mynegiant gan unigolion o'u hanfodlonrwydd â'r profiad a gawsent wrth ymwneud ag QAA. Gallent wneud cwynion ar ran eu sefydliad. Mae cwynion yn wahanol i apeliadau a gosodiadau, lle bydd sefydliad yn herio canlyniad adolygiad QAA neu benderfyniad arall a wnaed gan QAA.

4 Mae cwynion sy'n cael eu cadarnhau'n helpu QAA i ddysgu o brofiad, a gallant beri i QAA ymddiheuro i'r achwynydd ac adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau.

## Canmoliaeth a sylwadau

5 Mewn amgylchiadau lle byddwch efallai am gofrestru canmoliaeth neu sylwadau, gallwch wneud hynny drwy anfon e-bost at y tîm perthnasol. Bydd manylion canmoliaeth a sylwadau'n cael eu rhannu ag aelodau perthnasol o staff i fynd i'r afael â safbwyntiau ac awgrymiadau.

## Sut i gwyno am QAA

6 Yn y lle cyntaf, dylech gysylltu â'r unigolyn rydych wedi bod yn ymwneud ag o/â hi yn QAA, fel bod cyfle ganddo/ganddi i'ch helpu a cheisio datrys y mater.

7 7 Os nad ydych yn fodlon â'r esboniad a'r penderfyniad a gewch, mae modd i chi gysylltu â Thîm Llywodraethiant QAA i gyflwyno cwyn ffurfiol trwy e-bostio manylion eich cwyn i governance@qaa.ac.uk

8 Mae gan ein staff hawl i gael eu trin gyda pharch. Anaml y byddwn yn dod ar draws achwynwyr ymosodol, sarhaus neu flinderus, ond rydym yn cadw'r hawl i derfynu cysylltiad mewn achosion o'r fath.

## Safonau ar gyfer ymdrin â chwynion

9 Byddwn mewn sefyllfa well i ymateb i'ch cwyn os byddwch yn ei gwneud yn brydlon, gan gyflwyno tystiolaeth ategol ochr yn ochr â hi. Nodwch y maes, ynghyd â dyddiad ac amser y digwyddiad y mae eich cwyn yn ymwneud ag o, a rhowch dystiolaeth ategol ac unrhyw wybodaeth berthnasol am gyfathrebiadau a gafwyd rhyngoch chi â ni yn ymwneud â'r mater.

10 Byddwn yn:

- gweithredu ein Gweithdrefn ar gyfer ymdrin â Chanmoliaeth, Sylwadau a Chwynion mewn ffordd agored, eglur ac atebol
- ymdrin â'ch cwyn gyda chwrteisi, parch a thegwch
- cyfleu'r rhesymau dros y canlyniad
- defnyddio unrhyw wybodaeth a phrofiad a geir yn sgil cwynion i wella'r ffordd yr ydym yn gweithredu.

11 Mae QAA yn darparu hyfforddiant mewnol i'w staff ar sut i ymdrin â chwynion yn unol â'r weithdrefn hon ac ynghylch gofynion yr Hysbysiad Cydymffurfio a roddwyd i ni mewn perthynas â Mesur y Gymraeg. Mae ein Tîm Cyfleusterau a Chydymffurfiad yn darparu hyfforddiant mewn ymdrin â chwynion. Mae ein Swyddog y Gymraeg yn darparu hyfforddiant mewn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

## Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

12 Ein hegwyddor wrth wneud ein gwaith yng Nghymru yw y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac yn bodloni'r Hysbysiad Cydymffurfio a roddwyd i ni mewn perthynas â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

13 Felly, byddwn yn ymdrin ag unrhyw gwynion a dderbyniwn am y ffordd yr ydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn y meysydd cyflenwi gwasanaethau, gweithredu a llunio polisi yr ydym wedi ein hymrwymo iddynt, fel y maent wedi eu nodi yn y weithdrefn hon, p'un a ydym wedi derbyn y gŵyn yn y Gymraeg neu'r Saesneg, a byddwn yn ateb yn yr iaith y cyflwynwyd y gŵyn ynddi, oni bai bod yr achwynydd yn nodi y byddai'n hoffi derbyn ateb yn yr iaith arall.

14 Mae staff QAA yn derbyn hyfforddiant yn rheolaidd i sicrhau y gellir cyflawni ein hymrwymiad i'r Gymraeg.

15 Ymdrinnir â chwynion am y ffordd y mae QAA yn cydymffurfio ag Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn yr un modd â chwynion ffurfiol eraill, a gellir gwneud cwynion o'r fath, ac ymateb iddynt, yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd.

16 Yn y lle cyntaf, dylech anfon eich cwyn at yr unigolyn rydych wedi bod yn ymwneud ag o/â hi yn QAA. Os ydych yn dal yn anfodlon â'r canlyniad, gallwch ddilyn y drefn gwyno ffurfiol isod.

## Ein trefn gwyno

17 Unwaith y bydd eich cwyn wedi ei derbyn gan y Tîm Llywodraethu, caiff y gŵyn ei chofnodi a'i chydnabod, fel arfer o fewn tri diwrnod gwaith o'i derbyn.

18 Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Corfforaethol yn ystyried y gŵyn ac yn penderfynu sut i fynd ati i ymdrin â hi. Ymdrinnir â phob cwyn gan swyddog nad oes ganddo unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r mater y cwynir amdano. Os yw eich cwyn yn ymwneud â'r ffordd y mae QAA yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru), penodir swyddog sydd wedi ei hyfforddi mewn ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r Mesur. Mae'n bosib y bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Corfforaethol yn penderfynu cynnwys cydweithwyr eraill wrth ystyried eich cwyn, gan gynnwys (ond nid yn unig) aelodau o adrannau mewnol, adolygwyr annibynnol, ac aelodau o Fwrdd QAA a'i is-bwyllgorau.

19 Pan fyddwn ni wedi cwblhau'r broses o ystyried eich cwyn, bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Corfforaethol (neu gynrychiolydd enwebedig) yn cysylltu â chi i esbonio'r canlyniad. Ein nod yw ymateb i gwynion cyn pen pedair wythnos ar ôl eu derbyn, ond weithiau mae'n bosib y bydd angen mwy o amser arnom i ymchwilio. Yn y sefyllfa honno, byddwn yn ysgrifennu atoch i egluro sut mae'ch cwyn yn cael ei thrin, a phryd y gallwch chi ddisgwyl ateb llawn.

20 Pan gyflwynir cwyn ynghyd ag apêl neu osodiad, bydd y broses o ystyried y gŵyn yn cael ei gohirio fel arfer nes bydd y weithdrefn ar gyfer ymdrin â'r apêl neu'r gosodiad wedi ei chwblhau, fel nad yw'r broses o ymchwilio'r gŵyn yn rhagfarnu'r broses o ymdrin â'r apêl neu'r gosodiad, ac fel na cheir yr argraff bod hyn yn digwydd. Fodd bynnag, mewn achosion eithriadol gall y Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Corfforaethol benderfynu bod angen ystyried y gŵyn ochr yn ochr â'r apêl neu'r gosodiad.


21 Gellir cyfeirio cwynion y mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Corfforaethol yn eu hystyried yn rhai 'difrifol' at y Prif Weithredwr i'w hymchwilio. Gallai enghreifftiau o gwynion 'difrifol' gynnwys (ond nid yn unig) y rheiny sy'n ymwneud â honiadau o ymddygiad amhriodol, twyll neu anonestrwydd. Mae'n bosib na fydd modd ymdrin â chwynion o'r fath o fewn yr amseriadau sydd wedi eu hamlinellu uchod fel canllaw.

## Beth i'w wneud os nad ydych yn fodlon â'n hymateb

22 Os nad ydych yn fodlon â'n hymateb i'ch cwyn, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Corfforaethol o fewn saith diwrnod i dderbyn ein hymateb, gan esbonio'r rhesymau dros eich anfodlonrwydd.

23 Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Corfforaethol yn penderfynu a fydd adolygiad neu ail ymchwiliad yn cael ei gynnal, a bydd yn ymateb i chi cyn pen pythefnos ar ôl derbyn eich gohebiaeth. Os bydd ail ymchwiliad yn cael ei gynnal, byddwn yn rhoi gwybod i chi ynglŷn â'r amseriad arfaethedig ar gyfer derbyn ein hymateb.

## Diagram llif o'r broses gwyno



Cyhoeddwyd – Hydref 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2025
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
Gwefan: [www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)